



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: WG47781

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Fframwaith Canlyniadau Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd

Ionawr 2024

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymgynghoriad ar y Fframwaith Canlyniadau Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd, yr ymatebion a roddwyd i gwestiynau'r ymgynghoriad a'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cymryd o ganlyniad i'r adborth a gafwyd.

Y camau y mae angen eu cymryd

Er gwybodaeth yn unig y mae'r ddogfen hon.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill ar gael ar gais.

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Yr Is-adran Polisi Tai
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: homelessnesspolicy@gov.wales

Copïau ychwanegol

Ar ffurf electronig yn unig y cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a'r copïau o holl ddogfennau'r ymgynghoriad, ac maent ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i ddogfennaeth yr ymgynghoriad: <https://www.llyw.cymru/fframwaith-canlyniadau-ar-gyfer-rhoi-diwedd-ar-ddigartrefedd>

Cynnwys

Cyflwyniad	4
Crynodeb o'r ymatebion	5
Camau nesaf Llywodraeth Cymru.....	19
Atodiad A – Rhestr o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad	20
Atodiad B – Canlyniadau arolygon barn ychwanegol i'r digwyddiadau ymgysylltu	21

Cyflwyniad

Mae'r Fframwaith Canlyniadau Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd (y fframwaith) wedi cael ei ddatblygu i roi cyfeiriad strategol clir er mwyn atal a rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru. Gwna hyn drwy nodi'r canlyniadau hirdymor a ddymunir a'r cynnydd tuag at gyflawni'r canlyniadau hynny dros amser drwy 'dangosyddion data' sydd wedi cael eu dewis i fesur cynnydd yn erbyn y canlyniadau yn y fframwaith.

Yn benodol, mae'r fframwaith wedi cael ei lunio i ddangos effaith y camau lefel uchel a nodwyd yng [Nghynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd](#) Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2021, a'r cynnydd yn eu herbyn. Felly, caiff y fframwaith ei ddefnyddio i fesur cynnydd dros amser. Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU i ddatblygu Fframwaith Canlyniadau ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd.

Y broses ymgynghori

Rhwng 12 Mehefin a 18 Medi 2023, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar fersiwn ddrafft o'r fframwaith. Cyhoeddwyd y fframwaith drafft a'r ddogfen ymgynghori ar-lein yn Gymraeg ac yn Saesneg. Hysbyswyd partneriaid mewn awdurdodau lleol, sefydliadau yn y trydydd sector a grwpiau perthnasol eraill am yr ymgynghoriad.

Cynhaliwyd pedwar digwyddiadau ymgysylltu rhithwir yn ystod y cyfnod ymgynghori er mwyn rhoi cyfle i gael adborth drwy arolygon barn ar rai o'r cwestiynau allweddol a godwyd yn yr ymgynghoriad. Cofnodwyd adborth ysgrifenedig ac ar lafar yn ystod y digwyddiadau hefyd ac mae hyn wedi cael ei fwydo i mewn i'r dadansoddiad o'r ymatebion.

Ceisiodd yr ymgynghoriad nodi a yw'r canlyniadau strategol, sy'n sail i'r canlyniadau manwl a'r dangosyddion data, yn rhoi cyfeiriad strategol clir er mwyn atal a rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru. Gofynnwyd 10 cwestiwn i gyd, a chyflwynwyd 37 o ymatebion yn ystod y cyfnod ymgynghori. Cyflwynwyd yr ymatebion gan y sector cyhoeddus, y trydydd sector, sefydliadau cynrychioliadol ac ymatebwyr unigol.

Yn achos 11 o'r ymatebion, rhoddwyd yr ymateb heb enw'r unigolyn neu'r sefydliad, neu gofynnodd yr ymatebydd am i'w ymateb gael ei drin yn ddiennw (ceir rhestr lawn o'r ymatebwyr yn **Atodiad A**). Ymatebion rhannol a roddwyd gan rai ymatebwyr, gan ateb rhai o'r cwestiynau ond nid pob un ohonynt. Gallai unigolion gyflwyno eu hymatebion drwy holiadur ar-lein, e-bost neu'r post. Daeth y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r ymgynghoriad gan bobl neu sefydliadau yng Nghymru.

Crynodeb o'r ymatebion

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion i ddeg cwestiwn yr ymgynghoriad. Er nad yw'n cofnodi pob un o'r sylwadau a gafwyd, mae'n cyfleu'r prif negeseuon.

Cwestiwn 1

Mae'r Fframwaith Cyffredinol ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yn nodi **chwe chanlyniad strategol cyffredinol**:

1. Prin
2. Byrhoedlog
3. Ddim yn digwydd eto
4. Gweithlu
5. Ymateb Gwasanaethau Cyhoeddus
6. Canolbwyntio ar yr unigolyn

Ar sail prif egwyddorion y fframwaith (yn adran tri), i ba raddau ydych chi'n cytuno mai'r meysydd uchod yw'r ffocws strategol cywir ar gyfer y fframwaith?

	Nifer	%
Cytuno'n Gryf	10	29%
Cytuno	23	66%
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	1	3%
Anghytuno	1	3%
Anghytuno'n Gryf	0	0%
Cyfanswm	35	100%

Os ydych yn 'cytuno'n gryf/cytuno' - Esboniwch pam eich bod yn credu mai'r canlyniadau strategol hyn yw'r meysydd cywir i'w cynnwys yn y Fframwaith

Os ydych yn 'anghytuno'n gryf / anghytuno' – Esboniwch pa ganlyniadau strategol na ddylid eu cynnwys; neu pa rai eraill y dylid eu cynnwys

Ar y cyfan, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo mai'r chwe chanlyniad strategol yw'r meysydd cywir i'w cynnwys yn y fframwaith. O'r rhai a oedd yn cytuno, roedd llawer yn teimlo'n gryf fod gweithio amlasiantaethol a'r dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a welwyd yng nghanlyniadau strategol 5 a 6 yn allweddol i gyflawni'r canlyniadau strategol eraill ac yn croesawu'r ffaith eu bod wedi cael eu cynnwys. Nododd sawl ymatebydd fod rhoi diwedd ar ddigartrefedd yn gofyn am weithio mewn partneriaeth a chydweithio.

Hefyd roedd llawer o'r ymatebwyr yn teimlo bod cynnwys canlyniad strategol penodol i gydnabod gwerth a phwysigrwydd y gweithlu yn hynod bwysig.

Cyfeiriodd Cymorth Cymru yn benodol at bwysigrwydd ymgysylltu â phobl â phrofiad bywyd: "Mae barn pobl â phrofiad bywyd yn hanfodol i asesu cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu a dylent barhau i gael eu cynnwys yn y broses o lunio polisiau ac ymarfer".

Croesawyd y pwyslais ar gasglu data ar ddigartrefedd, ond nodwyd bod angen sicrhau bod trefniadau monitro digonol yn cael eu rhoi ar waith, a bod angen ystyried argaeledd data yn ofalus.

Gofynnwyd y cwestiwn hwn yn yr arolygon barn yn y pedwar digwyddiad ymgysylltu. Unwaith eto, roedd y mwyafrif llethol o'r bobl yn cytuno neu'n cytuno'n gryf mai'r chwe maes strategol oedd y ffocws strategol cywir i'w gynnwys yn y fframwaith.

	Cyfanswm yr ymatebion o bob digwyddiad	%
Cytuno'n Gryf	37	19%
Cytuno	128	66%
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	29	15%
Anghytuno	1	0%
Anghytuno'n Gryf	0	0%
Cyfanswm	196	100%

Cwestiwn 2a

A oes canlyniadau manwl eraill y dylem yn eich barn chi eu cynnwys?

	Nifer	%
Oes	10	32%
Nac oes	17	55%
Ddim yn gwybod	4	13%
Cyfanswm	31	100%

Os oes, rhestrwch nhw gan esbonio pam y dylem eu cynnwys.

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno na ddylid cynnwys unrhyw ganlyniadau manwl ychwanegol. Roedd 12 o'r 17 o ymatebwyr a atebodd 'na' naill ai'n sefydliadau yn y trydydd sector neu'n awdurdodau lleol.

O'r rhai a atebodd 'oes', nifer cymharol fach o themâu neu faterion cyffredin a ddaeth i'r amlwg yn yr ymatebion i awgrymu unrhyw gonsensws clir. Fodd bynnag, awgrymodd tri ymatebydd y dylid cynnwys cydnerthedd ac adnoddau'r gweithlu o dan ganlyniad strategol 4. Fodd bynnag, rydym wedi adlewyrchu hyn drwy ddatblygu arolwg newydd o'r Gweithlu er mwyn mesur cynnydd yn y maes strategol hwn.

Gwnaed sylwadau ynglŷn â'r angen bod y fframwaith yn hyblyg ac yn gallu cael ei newid lle y bo'n briodol, a thynnwyd sylw at yr angen am adolygu a diweddarau'r fframwaith yn unol â hynny. Fel rhan o'n proses o adolygu a datblygu'r Papur Gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru yn y dyfodol, byddwn yn ystyried sylwadau ar y cyflenwad tai wrth i ddiwygiadau arfaethedig i gynlluniau dyrannu tai cymdeithasol ddatblygu.

Hefyd, nododd Crisis "Byddem yn croesawu canlyniadau manylach ynglŷn â phobl â nodweddion gwarchodedig a'u profiadau o ddigartrefedd...". Cafwyd adborth cyffredinol drwy gydol yr ymgynghoriad mai cyfyngedig yw'r data ar nodweddion gwarchodedig ac mai am y rheswm hwnnw'n bennaf y mae'r maes hwn wedi bod yn un mwy anodd i fesur cynnydd yn ei erbyn yn hanesyddol. Wrth i'r fframwaith

ddatblygu, byddwn yn gweithio gyda'n cydweithwyr yn y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi i benderfynu a ellid defnyddio ymchwil ansoddol drwy arolygon i ddatblygu data yn y maes hwn.

Cwestiwn 2b

A oes unrhyw ganlyniadau manwl sydd wedi'u cynnig y dylem yn eich barn chi eu tynnu o'r rhestr?

	Nifer	%
Oes	4	14%
Nac oes	22	76%
Ddim yn gwybod	3	10%
Cyfanswm	23	100%

Os oes, rhestrwch nhw gan esbonio pam y dylem eu tynnu o'r rhestr

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn teimlo na ddylai unrhyw ganlyniadau manwl gael eu tynnu o'r rhestr, gyda sefydliadau yn y trydydd sector ac awdurdodau lleol yn cyfrif am 15 allan o'r 22 a atebodd 'nac oes'.

Mynegwyd sylwadau a phryderon cyffredinol ynglŷn â chynnwys tri chanlyniad manwl 7, 8 a 9 o dan ganlyniad strategol 1 sy'n cysylltu â dangosyddion cenedlaethol Llesiant Cymru, er mwyn adlewyrchu'r ffactorau strwythurol ehangach a all effeithio ar ddigartrefedd ledled Cymru. Nododd y Ganolfan Effaith Digartrefedd "Er inni gydnabod pwysigrwydd y canlyniadau hyn a phwysigrwydd mesur y dangosyddion o fewn y Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol ar gyfer poblogaeth Cymru, nid ydym yn siŵr a ddylent gael eu dyblygu yn y Fframwaith Canlyniadau Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd hefyd". Gwnaeth nifer bach o'r ymatebwyr gwestiynu'r rhestr o bobl/senarios a restrwyd o dan ganlyniad strategol 5 canlyniad manwl 2. Noder nad yw hon yn rhestr gynhwysfawr ac y byddai pobl neu amgylchiadau eraill hefyd yn cael eu nodi o dan y canlyniad hwn.

Roedd ychydig o'r ymatebion, yn enwedig y rhai gan awdurdodau lleol, yn ymwneud â phryderon ynglŷn â chasglu data, yn bennaf y ffaith nad yw'r systemau presennol yn gallu cofnodi dangosyddion penodol eto. Bu hon yn thema gyffredin yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac rydym yn anelu at leihau unrhyw faich ychwanegol ar awdurdodau lleol i'r eithaf. O ganlyniad, rydym wedi cynnig, lle y bo modd, ddangosyddion lle mae'r data eisoes yn cael eu cofnodi drwy'r data sy'n cael eu casglu ar hyn o bryd.

Cwestiwn 2c

A oes canlyniadau manwl sydd wedi'u cynnig y gallem eu gwella?

	Nifer	%
Oes	17	57%
Nac oes	7	23%
Ddim yn gwybod	6	20%
Cyfanswm	30	100%

Os oes, rhestrwch nhw gan esbonio pam y gallem eu gwella.

Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr yn teimlo bod canlyniadau y gellid eu gwella. O'r rhain, awgrymodd 35 y cant y dylai atal digartrefedd i blant a phobl ifanc

gael ei adlewyrchu yng nghanlyniad manwl 3 (o dan ganlyniad strategol 1). Daeth y mwyafrif o'r awgrymiadau ar gyfer y diwygiad hwn gan sefydliadau yn y trydydd sector.

Hefyd, roedd 24 y cant o'r rhai a deimlai fod angen gwelliant o'r farn bod angen i ganlyniad manwl 2 (o dan ganlyniad strategol 1) gael ei wella i gynnwys diffiniad clir o 'grŵp sy'n wynebu risg'. Un thema gyffredin a gododd yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn oedd pwysigrwydd canlyniadau a dangosyddion wedi'u diffinio'n dda, a byddwn yn adlewyrchu hynny yn y fframwaith terfynol.

Drwy gydol yr ymgynghoriad tynnodd sawl ymatebydd sylw at yr angen i fesur achosion aflwyddiannus a llwyddiannus o atal digartrefedd fel ei gilydd. O dan ganlyniad strategol 1, awgrymodd Cymorth Cymru y gellid ehangu dangosydd 2a i gynnwys "...y gyfran a gafodd ganlyniad llwyddiannus (h.y. digartrefedd wedi'i atal neu ddigartrefedd sydd wedi dod i ben)".

Cafwyd sylwadau cyffredinol hefyd ynglŷn â'r dangosyddion arfaethedig ar gyfer data cyflenwi tai, yn benodol ar gyfer canlyniad manwl 6, o dan ganlyniad strategol 1. Nodwyd bod cyflenwad tai yn hollbwysig i ddiwallu anghenion tai ac, wrth i waith yn y maes hwn ddatblygu, y gall fod yn briodol cynnwys mesurau manylach yma. Hefyd, roedd Cymorth Cymru yn teimlo mai dim ond aelwydydd digartref ar y rhestr aros am dai cymdeithasol a ddylai gael eu cofnodi o dan ddangosydd 6c. Mae hwn yn ddangosydd lle nad yw data yn cael eu casglu ar hyn o bryd am nad oes cofrestr tai cyffredin yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r [Papur Gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru](#) yn cynnig y dylid cyflwyno deddfwriaeth i'w gwneud yn ofynnol i gofrestrau tai cyffredin gael eu defnyddio ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Felly, byddwn yn ystyried yr awgrym hwn wrth ddatblygu'r fframwaith yn y dyfodol. At hynny, nododd nifer bach o'r ymatebwyr fod sicrhau llety addas yn allweddol, gan ystyried cyfyngiadau corfforol yn ogystal â goroeswyr cam-drin domestig a throseddau casineb.

Roedd yr angen am weithio amlasiantaethol a chydweithio yn un o'r themâu allweddol, a thynnodd ymatebwyr sylw at hyn fel maes allweddol i'w fesur. Gwnaed rhai sylwadau bod angen cynnwys gweithio mewn partneriaeth o dan ganlyniad strategol 5 (Ymateb Gwasanaethau Cyhoeddus). Nododd Cartrefi Cymunedol Cymru "...Rydym yn credu bod digartrefedd yn fwy na phroblem tai ac er mwyn atal digartrefedd mae'n rhaid i lawer o wasanaethau weithio gyda'i gilydd...".

Cyfeiriodd nifer o'r ymatebion gan sefydliadau yn y trydydd sector, yn ogystal â sefydliadau cynrychioliadol at bwysigrwydd data ystyrlon o ansawdd da a'r angen am ddata o'r fath, gyda ffocws ar "wella'r data sydd eisoes yn cael eu casglu er mwyn rhoi mwy o wybodaeth inni a all ein helpu i ddeall pwy sy'n ddigartref yng Nghymru a pham" yn unol ag awgrym Cartrefi Cymunedol Cymru.

Hefyd, cafwyd peth adborth nad oedd y fframwaith yn adlewyrchu ceiswyr lloches nac unigolion Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus yn benodol. Codwyd y defnydd o iaith fel achos pryder gan unigolyn a awgrymodd ein bod yn diystyru'r ffaith na fydd pobl Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus yn cael cynigion megis 'Neb Heb Help' ac felly y gellid ystyried bod yr iaith yn gamarweiniol ac yn 'aralleiddio' pobl Heb Hawl i Gyllid

Cyhoeddus. Mae'r *Papur Gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd* yng Nghymru yn ailddatgan mai Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am gymhwysra i gael cymorth tai a digartrefedd sy'n gysylltiedig â materion cenedligrwydd a mewnfudo. Mae hyn wedi arwain at brinder opsiynau i fabwysiadu trefniadau cymhwysra sy'n fwy cyson â blaenoriaethau Gweinidogion Cymru.

Cwestiwn 3

Cydraddoldeb, gwrth-wahaniaethu a hawliau dynol yw sail ein Cynllun Gweithredu ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd sy'n cydnabod bod rhai grwpiau yn fwy tebygol o lawer o wynebu anghydraddoldeb, gwahaniaethu ac ymleiddio fel rhwystrau.

Rydym wedi ceisio sicrhau bod y Cynllun Gweithredu yn adlewyrchu hynny trwy:

- **Prin:** Canlyniad Manwl 2 – Nodi'r grwpiau sydd fwyaf mewn perygl a rhoi mesurau yn eu lle fel bod llai o bobl o'r grwpiau hyn yn profi digartrefedd a
- Canlyniad Strategol 6: **Canolbwyntio ar yr Unigolyn**, a chanlyniadau sy'n sail iddo.

I ba raddau y mae'r fframwaith canlyniadau'n help digonol i fesur cynnydd at y nod cyffredinol hwn?

	Nifer	%
Cytuno'n Gryf	1	3%
Cytuno	16	50%
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	9	28%
Anghytuno	6	19%
Anghytuno'n Gryf	0	0%
Cyfanswm	31	100%

Os ydych yn 'cytuno'n gryf / cytuno' – esboniwch pam eich bod yn meddwl bod y fframwaith canlyniadau'n help digonol i fesur cynnydd at y nod cyffredinol hwn?

Os ydych yn 'anghytuno'n gryf / anghytuno' – esboniwch pam eich bod yn meddwl nad yw'r fframwaith canlyniadau'n help digonol i fesur cynnydd at y nod cyffredinol hwn?

Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y fframwaith yn help digonol i fesur cynnydd at y nod cyffredinol hwn. Roedd y mwyafrif a oedd yn anghytuno yn sefydliadau yn y trydydd sector. Yn debyg i'r ymatebion i gwestiwn 2c, roedd llawer o'r ymatebwyr yn teimlo bod angen diffiniad clir o grŵp sy'n wynebu risg. Hefyd, roedd ymatebwyr eraill yn teimlo ei bod yn bwysig gweithio gyda phobl â phrofiad bywyd er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn gwbl gynhwysol.

Unwaith eto, cafwyd sylwadau ynglŷn â phwysigrwydd data cadarn o ansawdd da yn y maes hwn. Cafwyd sylwadau hefyd ynglŷn ag anhawster casglu data ar nodweddion gwarchoddedig a'r cyfyngiadau ynglŷn â'r setiau data presennol. Nododd Shelter Cymru "...mae angen cefnogi awdurdodau lleol drwy roi hyfforddiant priodol

iddynt ac mae angen lle o fewn swyddfeydd opsiynau tai er mwyn i bobl deimlo'n gyfforddus yn datgelu gwybodaeth a allai fod yn bersonol.”

Cwestiwn 4

Ddim yn digwydd eto: Canlyniad Manwl 1 – Nid yw pobl yn profi cyfnodau niferus o fod yn ddigartref yn cysylltu â dangosydd data (a) Nifer yr aelwydydd a dderbyniodd cymorth o dan y ddyletswydd cymorth (adran 73 neu Adran 75) a gyflwynodd cais digartrefedd arall yn ddiweddarach (o fewn **X** mis) (absoliwt, fesul 10,000 o aelwydydd ac fel cyfran o'r holl geisiadau)

O ran profi digartrefedd am yr eildro, beth fyddai yn eich barn chi yn gyfnod priodol o amser (at ddiben cofnodi data) ar gyfer aelwyd rhwng derbyn cymorth o dan y ddyletswydd cymorth a chyflwyno cais digartrefedd arall (o fewn **X mis)?**

- i) 6 mis
- ii) 12 mis
- iii) Arall (manylwch)

	Nifer	%
i) 6 mis	5	19%
ii) 12 mis	13	48%
iii) Arall	9	33%
Cyfanswm	27	100%

Rhowch eich rhesymau am eich ateb

Roedd 48 y cant o'r ymatebwyr o'r farn mai 12 mis fyddai'r mesur priodol ar gyfer digartrefedd sy'n digwydd eto. Fodd bynnag, dewisodd 33 y cant 'arall', sy'n dangos pa mor anodd ydyw mesur digartrefedd sy'n digwydd eto. O'r rhai a ddewisodd 'arall', roedd 48 y cant yn teimlo y dylid mesur sawl cyfnod o amser, ac roedd yr awgrymiadau yn cynnwys cyfnodau o amser a oedd yn amrywio o dri mis i bum mlynedd, gyda nifer o fesurau rhyngddynt. Gwnaed sylwadau cyffredinol ynglŷn â'r Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru), a nodwyd y gallai achosion o 'troi allan heb fai' ddylanwadu ar y data sy'n cael eu casglu ar gyfer chwe mis a 12 mis.

O'r rhai a ddewisodd 12 mis, roedd ychydig o dan hanner yr ymatebwyr hynny yn teimlo y dylai'r terfyn amser adlewyrchu'r realiti ar hyn o bryd, sef wrth i bobl dreulio mwy o amser mewn llety dros dro yn yr hinsawdd sydd ohoni, na fyddai chwe mis yn ddigon hir i weld achosion sy'n digwydd eto. Mae'n bwysig nodi, am mai fframwaith i ymgynraedd ato yw'r fframwaith hwn, na ddylai'r hinsawdd sydd ohoni gael dylanwad gormodol ar y terfynau amser a ddewiswyd.

Hefyd, nododd Crisis na fyddai plant sydd wedi cael profiad o fod yn ddigartref ac sydd wedyn yn cysylltu â gwasanaethau digartrefedd fel oedolyn digartref yn cael eu cofnodi fel achosion sy'n digwydd eto: "...rhaid inni ystyried, os bydd plentyn yn ddigartref, na fydd y cais o dan ei enw o bosibl. Yna pan fydd yn gwneud cais yn oedolyn, efallai na chaiff hyn ei gofnodi fel digartrefedd sy'n digwydd eto. O ystyried y tebygolrwydd y bydd digartrefedd yn blentyn yn arwain at ddigartrefedd yn oedolyn, mae'n rhaid i hyn gael ei ystyried.”

Cwestiwn 5(a)

Ddim yn digwydd eto: Canlyniad Manwl 3 - Mae pobl yn gallu cael y cartref cywir yn y lle cywir

Rydym yn cydnabod bod hwn yn ganlyniad anodd ei fesur ac nid yw'r dangosyddion data a gynigir yn cael eu cofnodi ar hyn o bryd mewn casgliadau data (er y gellir yn y cyfamser defnyddio procsi ar gyfer dangosydd b trwy ddefnyddio dangosydd tracio Tai yn Gyntaf Cymorth Cymru).

Nodwch wrth bob un o'r dangosyddion data posibl isod a ydych yn meddwl y gallem eu defnyddio i fesur cynnydd mewn cysylltiad â'r canlyniad?

- (a) Nifer a chanran y bobl sy'n cadw eu tenantiaethau 6 mis ar ôl derbyn cymorth (Anghenion Isel/Canolig)

	Nifer	%
Ydw	16	64%
Nac ydw	7	28%
Ddim yn gwybod	2	8%
Cyfanswm	25	100%

- (b) Nifer a chanran y bobl sy'n cadw eu tenantiaethau 6 mis ar ôl cael cymorth tai dwys fel Tai yn Gyntaf (Anghenion Uchel)

	Nifer	%
Ydw	17	68%
Nac ydw	6	24%
Ddim yn gwybod	2	8%
Cyfanswm	25	100%

- (c) Nifer a chanran y bobl sydd wedi aros mewn llety â chymorth sy'n cadw eu tenantiaethau 6 mis ar ôl dechrau'r denantiaeth (Anghenion Dwys)

	Nifer	%
Ydw	14	56%
Nac ydw	6	24%
Ddim yn gwybod	5	20%
Cyfanswm	25	100%

Os ydych wedi ateb 'nac ydw' i unrhyw un o'r dangosyddion a gynigir, esboniwch y rheswm am eich ymateb gan gynnwys cynnig dangosydd data arall yn ei le*.

Yn achos y tri dangosydd, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno y gellid eu defnyddio i fesur cynnydd yn erbyn y canlyniad priodol. Nifer cymharol fach o themâu neu faterion cyffredin a ddaeth i'r amlwg yn yr ymatebion 'Nac ydw' i awgrymu unrhyw gonsensws clir.

Fodd bynnag, roedd tri ymatebydd yn teimlo y byddai'n fwy priodol mesur y canlyniad hwn drwy arolwg. Cododd Crisis y pwyntiau canlynol: "Bydd yn anodd dod

o hyd i ffynhonnell ddata sy'n arwain at ddata meintiol ar y canlyniad hwn, ond gallai data ansoddol fod yn ddefnyddiol. Sonnir am arolygon y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi fel dangosyddion ar gyfer canlyniadau eraill yn y fframwaith, a gallai Llywodraeth Cymru ddefnyddio arolygon ar gyfer y canlyniad hwn i ganfod i ba raddau y mae'r cyhoedd yn teimlo eu bod yn gallu cael 'y cartref cywir yn y lle cywir', a hefyd sut roedd y rhai a oedd wedi ceisio cymorth digartrefedd yn teimlo bod eu hanghenion o ran addasrwydd wedi cael eu diwallu...".

Roedd agweddau ar addasrwydd y dangosyddion o ran mesur y canlyniad hwn yn achos pryder i rai ymatebwyr. Roedd tri ymatebydd yn teimlo nad oedd llwyddo i gadw tenantiaeth yn fesur priodol ar gyfer 'y cartref cywir yn y lle cywir', o ystyried y gallai tenantiaethau gael eu cadw am lawer o resymau nad ydynt o anghenraid yn golygu 'y cartref cywir yn y lle cywir'. Nododd y Ganolfan Effaith Digartrefedd "Byddai'r dangosyddion hyn yn dangos bod aelwyd wedi aros mewn llety am o leiaf chwe mis. Fodd bynnag, gallai fod sawl rheswm dros hyn ac nid yw'n golygu o anghenraid fod y preswlydd yn y cartref cywir yn y lle cywir."

Cwestiwn 5(b)

Mae dangosyddion data (a), (b) ac (c) uchod yn cyfeirio at gadw tenantiaethau am gyfnodau o 6 mis.

I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cyfnod amser 6 mis hwn?

	Nifer	%
Cytuno'n Gryf	2	7%
Cytuno	8	30%
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	3	11%
Anghytuno	14	52%
Anghytuno'n Gryf	0	0%
Cyfanswm	27	100%

Nid oedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r terfyn amser o chwe mis. O'r rhai nad oeddent yn cytuno, roedd 29% yn teimlo y dylai fod terfyn amser o 12 mis ar gyfer pob un o'r tri dangosydd. Roedd eraill yn teimlo bod y cyfnod o amser yn amhriodol i'r rhai ag anghenion uchel neu ddwys ac y dylid ei estyn ar gyfer y ddau ddangosydd hyn.

Awgrymodd Cartrefi Cymunedol Cymru, a oedd o blaid terfyn amser o 12 mis, "Byddai newid i gofnodi'r data hyn dros 12 mis o'r adeg y dechreuodd y tenantiaethau yn ein helpu i gael dealltwriaeth fwy cywir o ddigartrefedd yng Nghymru a deall lefel y cyllid a'r adnoddau sydd eu hangen i gadw tenantiaethau mewn achosion cymhleth".

Ar y llaw arall, roedd cefnogaeth gref o blaid y terfyn amser o chwe mis, yn enwedig gan y Sefydliad Siartredig Tai: "Rydym yn cytuno'n gryf â'r terfyn amser o chwe mis ar gyfer pob un o'r dangosyddion a amlinellwyd yn y cwestiwn hwn am fod y terfyn

amser o chwe mis yn adlewyrchu terfynau amser eraill sy'n ymwneud â thenantiaethau a chyflawni dyletswyddau digartrefedd yng Nghymru”.

Cwestiwn 6(a)

Byrhoedlog: Canlyniad Manwl 2 – Mae Neb yn profi digartrefedd dros gyfnod tymor hir yn cysylltu â dangosydd data (a) Nifer yr aelwydydd sy'n profi digartrefedd tymor hir (absoliwt a'r gyfradd fesul 10,000 o aelwydydd)

Beth yn eich barn chi fyddai cyfnod amser addas ar gyfer mesur digartrefedd tymor hir?

- i) 6 mis
- ii) 12 mis
- iii) Arall (manylwch)

	Nifer	%
i) 6 mis	6	27%
ii) 12 mis	8	36%
iii) Arall	8	36%
Cyfanswm	22	100%

Rhowch eich rhesymau am eich ateb.

Roedd yr ymatebion wedi'u dosbarthu'n eithaf cyfartal rhwng y tri opsiwn ar gyfer cwestiwn 6a, sy'n tynnu sylw at ba mor anodd ydyw mesur digartrefedd hirdymor. O'r cyfanswm o ymatebwyr, nododd 27 y cant fod angen i'r terfyn amser a ddewisir adlewyrchu realiti digartrefedd ar hyn o bryd. Roedd Llamau ac End Youth Homelessness Cymru yn teimlo bod angen diffiniad gwahanol ar gyfer grwpiau wedi'u hymleiddio.

Roedd rhywfaint o gefnogaeth i derfynau amser lluosog, un hwy i adlewyrchu realiti'r pwysau ar y system ar hyn o bryd ac un byrrach fel targed i ymgynghoriad ato. Roedd rhywfaint o gefnogaeth o blaid mesur o 12 mis neu fwy. Ar y llaw arall, roedd eraill yn teimlo y dylai'r mesur fod yn chwe mis neu lai.

Hefyd, cynhaliwyd arolwg barn ar y cwestiwn hwn mewn pedwar o'n digwyddiadau ymgysylltu ar gyfer yr ymgynghoriad. Roedd ychydig dros hanner y bobl a atebodd yn teimlo bod chwe mis yn fesur addas o ddigartrefedd hirdymor. O'r rhai a ddewisodd 'arall', y teimlad cyffredinol oedd y dylai tri mis gael ei ystyried yn ddigartref yn yr hirdymor, gyda rhywfaint o amrywio o ran a ddylid ystyried cyfnod o lai neu fwy na thri mis.

Canlyniadau arolygon barn mewn digwyddiadau ymgysylltu:

Opsiynau	Cyfanswm yr ymatebion o bob digwyddiad	Canrannau cyfartalog
6 mis	90	52%
12 mis	55	32%
Arall	28	16%
Cyfanswm	174	100%

Cwestiwn 6(b)

Byrhoedlog: Mae Canlyniad Manwl 2 yn cysylltu â dangosydd data (b) Nifer yr aelwydydd sy'n profi digartrefedd tymor hir ar y stryd (absoliwt a'r gyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth)

Beth yn eich barn chi fyddai cyfnod amser addas ar gyfer mesur digartrefedd tymor hir ar y stryd?

- i) 3 mis
- ii) 6 mis
- iii) Arall (manylwch)

	Nifer	%
i) 3 mis	8	31%
ii) 6 mis	4	15%
iii) Arall	14	54%
Cyfanswm	26	100%

Rhowch eich rhesymau am eich ateb.

Dewisodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr 'arall' wrth ateb cwestiwn 6b, sy'n adlewyrchu'n bennaf pa mor anodd ydyw mesur digartrefedd hirdymor ar y stryd. Cafwyd thema gyffredinol, sef bod yr ymatebwyr yn glir na ddylai neb gael ei orfodi i gysgu allan ac nad oedd unrhyw gyfnod o amser yn dderbyniol, ac y dylai'r dangosydd gael ei ail-lunio. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno'n gryf â'r datganiad hwn ond mae'n rhaid inni gydnabod, er mwyn rhoi diwedd ar ddigartrefedd ar y stryd yn gyfan gwbl, ei bod yn bwysig monitro a chofnodi achosion o ddigartrefedd hirdymor ar y stryd.

Tanlinellodd llawer o'r ymatebion yr angen i leihau cysgu allan i'r eithaf ac roedd 19 y cant o'r ymatebwyr yn teimlo y dylid pennu mesur o lai na thri mis. O ystyried hyn, gallwn ddod i'r casgliad bod 50 y cant o'r ymatebwyr yn teimlo y dylid pennu mesur o dri mis neu lai.

Gwnaed sylwadau yn awgrymu y dylai'r mesur fod yn gyson â'r dangosyddion Rhoi Diwedd ar Gysgu Allan a ddefnyddir yn Lloegr, a ddatblygwyd ar y cyd â'r Ganolfan Effaith Digartrefedd. Mae Cymorth Cymru yn un o'r sefydliadau yn y trydydd sector sy'n cefnogi hyn "unwaith eto, rydym yn meddwl tybed a fyddai'n well cysoni'r terfyn amser â diffiniadau a ddefnyddir mewn mannau eraill. Y dangosyddion Rhoi Diwedd ar Gysgu Allan a ddefnyddir yn Lloegr, a ddatblygwyd ar y cyd â'r Ganolfan Effaith Digartrefedd. Nifer y bobl sy'n cysgu allan yn yr hirdymor Bydd unigolion yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y dangosydd hwn os ydynt wedi cael eu gweld yn ddiweddar (o fewn y mis adrodd), a hefyd wedi cael eu gweld allan mewn tri mis neu fwy allan o'r 12 mis diwethaf."

Cynhaliwyd arolwg barn ar y cwestiwn hwn hefyd yn ein digwyddiadau ymgysylltu ar gyfer yr ymgynghoriad. Roedd 50 y cant o'r ymatebwyr yn teimlo mai tri mis oedd yr

opsiwn mwyaf priodol, ond roedd 36 y cant wedi dewis 'arall'. O'r rhai a ddewisodd 'arall', yr adborth cyffredinol oedd y dylid pennu mesur o lai na thri mis, gyda llawer yn nodi mai llai na mis yw'r mesur mwyaf priodol.

Canlyniadau arolygon barn mewn digwyddiadau ymgysylltu

Opsiynau	Cyfanswm yr ymatebion o bob digwyddiad	Canrannau cyfartalog
3 mis	85	50%
6 mis	23	14%
Arall	62	36%
Cyfanswm	170	100%

Cwestiwn 7

Ymateb Gwasanaethau Cyhoeddus: Mae 'cadwyr lle' wedi'u nodi fel dangosyddion data posibl ar gyfer y dyfodol.

A oes dangosyddion data cyfredol sy'n bodoli y carech dynnu ein sylw atynt sy'n ymwneud ag ymateb ehangach y gwasanaethau cyhoeddus?

	Nifer	%
Oes	4	16%
Nac oes	11	44%
Ddim yn gwybod	10	40%
Cyfanswm	25	100%

Os 'oes' – esboniwch ba ddangosyddion data cyfredol ynglŷn ag ymateb ehangach y gwasanaeth cyhoeddus.

Atebodd y mwyafrif, 84 y cant, naill ai 'Nac oes' neu 'Ddim yn gwybod' ar gyfer y cwestiwn hwn. Mae hyn yn adlewyrchu ymhellach pa mor anodd yw cofnodi data yn y maes hwn. O'r rhai a atebodd 'Oes', roedd pob un yn sefydliadau yn y trydydd sector. Nid oedd unrhyw un o'r awdurdodau lleol yn teimlo eu bod yn gwybod am unrhyw ddangosyddion data perthnasol.

Nifer cymharol fach o themâu neu faterion cyffredin a ddaeth i'r amlwg yn yr ymatebion i awgrymu unrhyw gonsensws clir. Roedd tri ymatebydd yn teimlo mai drwy arolwg y byddai'r ffordd orau o gofnodi'r data hyn. Awgrymodd y Wallich: "Y ffordd arall o fynd ati i lenwi'r bwlch hwn yn y data, yn hytrach na dibynnu ar wasanaethau cyhoeddus eraill i gasglu gwell data ar dai a digartrefedd, yw cynnal arolwg uniongyrchol o bobl sydd mewn cysylltiad â gwasanaethau tai am eu profiadau o ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus eraill...". Cafwyd consensws bod angen data manylach ynglŷn â'r croestoriad rhwng gwasanaethau cyhoeddus.

Cafwyd llawer o sylwadau hefyd yn awgrymu y gallai mesur ffynonellau atgyfeirio fod yn ddefnyddiol o ran cofnodi gwybodaeth yn y maes hwn, ond nid yw hyn yn cael ei gasglu ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru ac nid yw'n cael ei gasglu'n gyson gan ddarparwyr gwasanaethau nac awdurdodau lleol. Caiff y fframwaith ei adolygu a'i

ddatblygu dros amser a chaiff dangosyddion a chanlyniadau eu hadolygu fel y bo'n briodol. Byddwn yn ystyried opsiynau ynglŷn â chynnal arolygon yn y maes hwn fel ffordd o fesur atgyfeiriadau gan wasanaethau cyhoeddus eraill.

Cwestiwn 8(a)

Carem glywed eich barn am effeithiau'r Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd ar y Gymraeg, yn enwedig ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth yn eich barn chi fyddai'r effeithiau hynny?

Cwestiwn 8 (b) Sut y gellid cynyddu'r effeithiau positif?

Cwestiwn 8 (c) Sut y gellid lleihau'r effeithiau negyddol?

Cwestiwn 8
Nifer yr ymatebion - 23

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr (65 y cant) yn teimlo na fyddai fawr ddim effeithiau, os o gwbl, ar y Gymraeg o ganlyniad i'r Fframwaith Canlyniadau Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd. Awgrymodd Shelter Cymru "Gallai'r Fframwaith Canlyniadau ystyried olrhain llwyddiant ymyriadau a wneir drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn deall a yw canlyniadau yn wahanol mewn unrhyw ffordd...", ac aeth yn ei flaen i nodi nad oedd yn rhagweld unrhyw effeithiau negyddol.

Hefyd, dywedodd Crisis "...gallai'r fframwaith gynnwys mesurau o ran ceisiadau sy'n cael eu prosesu yn y Gymraeg ar gais, ond byddem yn awgrymu y dylid ymgynghori â sefydliadau arbenigol ar y mesurau posibl mwyaf priodol y gellid eu cynnwys o ran hyn".

O ran cael y cartref cywir yn y lle cywir, teimlai Cymorth Cymru: "Gellid hefyd ystyried ymhellach a ddylai fod dangosyddion ychwanegol ynghylch a all siaradwyr Cymraeg gael y cartref cywir yn y lle cywir...",

Rydym wedi ystyried y sylwadau hyn ond yn teimlo na fydd y Fframwaith Canlyniadau Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar y Gymraeg.

Cwestiwn 9

Rydym am ddeall hefyd sut y gallai'r Fframwaith Canlyniadau a gynigir ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd gael ei lunio neu ei newid i gael effeithiau positif neu fwy o effeithiau positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg neu i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, heb gael effeithiau negyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sut y gallai'r fframwaith gael ei lunio neu ei newid i gael effaith positif ar y Gymraeg?

Cwestiwn 9
Nifer yr ymatebion - 15

Cyfyngedig fu'r adborth mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, gyda 33 y cant o'r ymatebwyr yn nodi nad oedd ganddynt unrhyw awgrymiadau ynglŷn â sut y gellid newid y fframwaith i gael effaith fwy cadarnhaol ar y Gymraeg. Awgrymodd y Sefydliad Tai Siartredig: "...cynnwys canlyniad manwl o dan y canlyniad sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Byddai'r canlyniad manwl hwn yn ystyried yn benodol nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau digartrefedd ac sy'n defnyddio'r Gymraeg fel eu hiaith gyntaf fel nifer a chanran absoliwt. Yna, byddai hyn yn cael ei gymharu â chanran y staff mewn gwasanaethau digartrefedd statudol a gwasanaethau cymorth sy'n gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg...".

Adborth cyffredinol ar y fframwaith

Cwestiwn 10

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych ragor o adborth am y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd, nodwch hwnnw yma:

Cwestiwn 10
Nifer yr ymatebion – 20

Un thema allweddol a ddaeth i'r amlwg oedd pwysigrwydd casglu data cadarn a chysondeb. Nododd awdurdodau lleol a sefydliadau yn y trydydd sector, fel ei gilydd, bwysigrwydd casglu data cyson er mwyn mesur cynnydd yn erbyn y fframwaith hwn. Nododd y Wallich "...y prif fater inni ynglŷn â'r fframwaith drafft newydd hwn yw ein gobaith y caiff dangosyddion data eu dehongli a'u casglu'n gyson gan bob un o'r 22 o awdurdodau lleol, rhywbeth sydd wedi bod yn anodd yn y gorffennol...".

O ran casglu data, nododd Crisis "...dylai rhai darnau o ddata a amlinellwyd yn y fframwaith gael eu casglu fel gofyniad sylfaenol ac fel blaenoriaeth. Pe bai angen canolbwyntio ar gyflwyno rhai setiau data cyn eraill, byddem yn croesawu cymryd rhan mewn trafodaethau ynglŷn â pha setiau data y dylid eu blaenoriaethu ...". Nododd dau ymatebydd arall hefyd y byddent yn croesawu cydweithio ar roi ffynonellau data newydd ar waith. Codwyd pryderon gan awdurdodau lleol a sefydliadau yn y trydydd sector ynglŷn â'r adnoddau a'r cyllid sydd eu hangen i roi systemau newydd ar waith, a hefyd y baich ychwanegol a gaiff ei osod ar awdurdodau lleol.

Nododd Shelter Cymru bwysigrwydd casglu'r data hyn: "Rhaid canmol Llywodraeth Cymru am fwrw ymlaen â'r fframwaith ar adeg mor heriol o ran digartrefedd. Yn anochel, bydd y data a gesglir yn rhoi darlun anodd ar adegau. Ni waeth pa mor anodd yw'r data, mae'n hollbwysig bod Llywodraeth Cymru yn glynu wrth ei hymrwymiad i gasglu a chyhoeddi, hyd yn oed pan ymddengys bod popeth yn mynd i'r cyfeiriad anghywir."

Adborth ychwanegol o'r digwyddiadau ymgysylltu

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, trefnodd Llywodraeth Cymru bedwar digwyddiad ymgysylltu ar-lein, yn ogystal â dau ddigwyddiad i Arbenigwyr drwy Brofiad a digwyddiad ymgysylltu â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a drefnwyd gan Cartrefi Cymunedol Cymru. Gwnaethom gynnal arolygon barn ar sawl cwestiwn allweddol yn yr ymgynghoriad. Mae canlyniadau tri arolwg barn o'r fath o dan gwestiwn 1, 6a a 6b. Gofynnodd y cwestiynau eraill yn yr arolygon barn i ba raddau roedd pobl yn cytuno â'r canlyniadau manwl arfaethedig sy'n sail i bob un o'r priod ganlyniadau strategol. Gofynnwyd y cwestiwn hwn ar gyfer pob un o'r chwe chanlyniad strategol a cheir y canlyniadau o dan **Atodiad B**.

Roedd adborth cyffredin o'r digwyddiadau ymgysylltu yn dangos cefnogaeth gyffredinol i'r holl ganlyniadau manwl sy'n sail i bob un o'r canlyniadau strategol. Yn adborth y digwyddiadau i Arbenigwyr drwy Brofiad y cafwyd y gefnogaeth fwyaf i ganlyniadau manwl 4 a 6 o dan ganlyniad strategol 1, a chanlyniad manwl 3 o dan ganlyniad strategol 3. Mae hyn yn rhoi sicrwydd bod sylwedd y canlyniadau yn berthnasol a bod y canlyniadau strategol yn canolbwyntio ar y meysydd cywir.

Camau nesaf Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar iawn i bawb a roddodd o'u hamser a'u hymdrech i ymateb i'r ymgynghoriad. Gan mai dogfen grynhoi ydyw, ni fydd yr holl faterion a amlinellwyd yn yr ymatebion wedi'u hadlewyrchu'n llawn, ond cafodd pob ymateb ei ystyried yn ofalus. O ganlyniad i'r adborth a gafwyd, rydym wedi gwneud y newidiadau canlynol i'r Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd.

- Mewn ymateb i'r angen i'r fframwaith gael ei adolygu a'i ddiweddarau felly, caiff y fframwaith ei adolygu ar ôl y diwygiadau sydd ar ddod i bolisi a deddfwriaeth yn unol â'r *Papur Gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd*, er mwyn sicrhau bod y canlyniadau yn parhau i fod yn berthnasol er mwyn dangos ein cynnydd tuag at roi diwedd ar ddigartrefedd ledled Cymru.
- Cyflwyno dau ddangosydd newydd o dan ganlyniad strategol 1, canlyniad manwl 3 i fesur bygythiad ac atal digartrefedd i blant a phobl ifanc – nodir hyn yn y [fframwaith terfynol](#).
- Rhoddir diffiniad o grwpiau 'sy'n wynebu risg' o dan ganlyniad strategol 1, canlyniad manwl 2 yn **Atodiad 1** i'r fframwaith.
- Caiff canlyniad strategol 1, dangosydd 2a ei ddiwygio i gynnwys dadansoddiad yn ôl dulliau atal a chymorth aflwyddiannus a llwyddiannus. Bwriedir gwneud hyn ar gyfer canlyniad strategol 6, dangosydd 2a hefyd.
- Rydym yn bwriadu defnyddio 12 mis fel terfyn amser priodol i fesur digartrefedd sy'n digwydd eto.
- O dan ganlyniad strategol 3, rydym yn bwriadu defnyddio 12 mis fel y terfyn amser ar gyfer cynnal tenantiaethau ac mae hyn yn gyson â'r Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru). Mae cyfle i gasglu'r dangosyddion hyn, o dan ganlyniad manwl 3, yn dilyn yr adolygiad deddfwriaethol.
- Diben y fframwaith hwn yw pennu targedau i ymgyrraedd atynt, felly ar ôl ystyried yr adborth ar yr ymgynghoriad rydym wedi penderfynu defnyddio chwe mis fel y diffiniad o ddigartrefedd hirdymor, gan gynnwys faint o amser y mae pobl wedi treulio mewn llety dros dro. Ein disgwyliad yw y bydd modd newid unrhyw ddiffiniad yn y fframwaith yn ôl yr angen dros amser, yn unol â diwygio deddfwriaethol.
- Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno'n gryf na ddylai neb gael ei orfodi i gysgu allan, ond rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd monitro achosion o ddigartrefedd hirdymor ar y stryd. O ystyried bod yr adborth cyffredinol o'r ymgynghoriad wedi nodi bod angen i'r cyfnod o ddigartrefedd ar y stryd fod mor fyr â phosibl ac yn sicr yn fyrrach na thri mis, rydym wedi penderfynu defnyddio un mis i fesur digartrefedd hirdymor ar y stryd.

Atodiad A – Rhestr o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad

Adullam Housing

Cyngor Sir Caerfyrddin

Canolfan Effaith Digartrefedd

Cyngor Sir Ceredigion

Y Sefydliad Siartredig Tai

Comisiynydd Plant Cymru

Cartrefi Cymunedol Cymru

Crisis

Cymorth Cymru

Cyngor Sir Ddinbych

End Youth Homelessness Cymru

Ian Thomas, Prifysgol Caerdydd

Cyngor Sir Ynys Môn

Kaleidoscope

Llamau

Cyngor Castell-nedd Port Talbot

Shelter Cymru

Cyngor Abertawe

Tai Pawb

Y Lleng Frenhinol Brydeinig

The Wallich

Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Atodiad B – Canlyniadau arolygon barn ychwanegol i'r digwyddiadau ymgysylltu

Drwy gydol y digwyddiad ymgysylltu gwnaethom gynnal arolwg barn ar nifer o gwestiynau. O ran y canlyniadau isod, gofynnwyd i'r rhai a fu'n bresennol ddewis y canlyniadau pwysicaf, yn eu barn nhw, ar gyfer pob canlyniad strategol dan sylw. Caniatawyd dewis sawl canlyniad.

Canlyniadau Manwl o dan Ganlyniad Strategol 1	Canrannau cyfartalog
1. Mae llai o aelwydydd yn profi digartrefedd yn y lle cyntaf.	13%
2. Mae'r grwpiau sy'n wynebu'r risg fwyaf yn cael eu nodi ac mae mesurau yn eu lle fel bod llai o bobl o'r grwpiau hyn yn profi digartrefedd	12%
3. Caiff plant a phobl ifanc sy'n wynebu'r risg o ddigartrefedd eu nodi ar gam cynnar a'u hatal rhag mynd yn ddigartref	15%
4. Nid oes neb yn ddigartref ar y stryd	12%
5. Mae cymorth ar gael i sicrhau nad yw chwalu teuluoedd a thor perthynas yn arwain at ddigartrefedd	12%
6. Cyflenwad digonol a chartrefi fforddiadwy o ansawdd da ar gael i ddiwallu anghenion tai	13%
7. Mae gan bawb yng Nghymru yr adnoddau angenrheidiol i ddiwallu eu hanghenion	6%
8. Mae pawb yng Nghymru yn cael cyfle i gael swyddi teilwng	5%
9. Mae pawb yng Nghymru yn gallu cael gafael ar y gofal iechyd sylfaenol a chymdeithasol sydd ei angen arnynt	10%

Canlyniadau Manwl o dan Ganlyniad Strategol 2	Canrannau cyfartalog
1. Mae pawb sy'n ddigartref yn gallu cael cartref sefydlog mor gyflym â phosibl.	34%
2. Nid oes neb yn cael profiad o ddigartrefedd hirdymor	24%
3. Gall pobl gael cymorth amlasiantaethol cydgysylltiedig, addas sydd wedi'i deilwra at eu hangenion, lle y bo angen	41%

Canlyniadau Manwl o dan Ganlyniad Strategol 3	Canrannau cyfartalog
1. Nid fydd pobl yn mynd drwy gyfnodau lluosog o ddigartrefedd	27%
2. Mae pobl yn cael cymorth sy'n briodol i'w hanghenion i gadw eu tenantiaethau	50%
3. Gall pobl gael y cartref cywir yn y lle cywir	22%

Canlyniadau Manwl o dan Ganlyniad Strategol 4	Canrannau cyfartalog
1. Mae staff cymorth digartrefedd a thai yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cefnogi a'u cydnabod am eu sgiliau a'u profiad	32%
2. Mae staff cymorth digartrefedd a thai yn cael y cymorth a'r amser, ac maent yn fedrus ac yn hyderus, i roi cymorth sy'n ystyriol o drawma ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn	39%
3. Mae recriwtio a chadw staff cymorth digartrefedd a thai yn diwallu anghenion tai pobl yng Nghymru	28%

Canlyniadau Manwl o dan Ganlyniad Strategol 5	Canrannau cyfartalog
1. Gall pobl sy'n ddigartref neu sy'n wynebu risg o ddigartrefedd gael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt a chânt eu trin ag urddas a pharch gan wasanaethau cyhoeddus eraill	33%
2. Nid yw pobl yn cael eu rhyddhau o wasanaethau cyhoeddus eraill i fod yn ddigartref	32%
3. Mae gwasanaethau cyhoeddus eraill yn cydnabod eu rôl o ran nodi'r rhai sy'n wynebu risg o ddigartrefedd, rhoi mesurau ataliol ar waith a chyfle i gynnig llwybrau atgyfeirio priodol	34%

Canlyniadau Manwl o dan Ganlyniad Strategol 6	Canrannau cyfartalog
1. Mae pobl yn cael y cymorth sy'n diwallu eu hanghenion unigol ac yn cael eu trin ag urddas a pharch	44%
2. Nid yw pobl sy'n wynebu rhwystrau penodol (o ganlyniad i nodweddion gwarchoddedig, profiad blaenorol ac ati) yn profi digartrefedd yn anghymesur	28%
3. Mae pobl â phrofiad bywyd yn dylanwadu ar bolisi ac ymarfer Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol a darparwyr gwasanaethau	27%